



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod



Mai 2020

Rhagair y Prif Weinidog

Dros yr wyth wythnos ddiwethaf, rydym wedi gweld ymdrech anhygoel, ym mhob rhan o'n cymdeithas, i ymateb i'r her i'n ffordd o fyw yn sgil y feirws COVID-19 – her na welwyd mo'i thebyg o'r blaen.

Rwy'n falch iawn o ymdrechion arwrol staff y Gwasanaeth Iechyd a'r rheini sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i helpu'r bobl sydd wedi bod yn sâl. Mae gweithwyr siopau, pobl sy'n gweithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn y diwydiant cludiant, glanhawyr, gweithwyr post, staff y gwasanaethau cyhoeddus a llawer un arall wedi helpu i gynnal ein cymunedau. Gwelwyd ymdrech eithriadol gan wirfoddolwyr i helpu i edrych ar ôl y bobl hynny sydd fwyaf angen cymorth. Mae pobl wedi aros gartref ac wedi glynu at y mesurau cadw pellter cymdeithasol pan oedd raid iddynt adael y tŷ – ac mae hynny, yn fwy na dim byd arall, wedi helpu i arafu lledaeniad y clefyd.

O ganlyniad, rydyn ni, fel gwledydd eraill ar draws y byd, yn gallu dechrau meddwl sut y gallwn ddechrau llacio'r cyfyngiadau. Ond, wrth wneud hynny, mae'n hanfodol ein bod yn sylweddoli nad argyfwng tymor byr yw hwn. Hyd nes y ceir brechlyn neu driniaethau effeithiol, bydd raid inni fyw gyda'r clefyd yn ein cymdeithas a cheisio rheoli ei ledaeniad a lliniaru ei effeithiau.



Ar 24 Ebrill cyhoeddwyd 'Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad'. Yn y ddogfen honno, roeddem yn nodi ein dull cyffredinol o fynd ati i benderfynu sut a phryd y gellid llacio'r cyfyngiadau.

Fe wnaethom nodi tri philer:

- 1 Mesurau a thystiolaeth
- 2 Yr egwyddorion sy'n sail i addasu'r cyfyngiadau
- 3 Y diben o ran iechyd y cyhoedd

Yn y ddogfen hon, rydym yn adeiladu ar y dull hwnnw er mwyn nodi'r camau penodol yr ydym yn ystyried eu cymryd wrth fynd yn ein blaenau.

Wrth i Gymru symud i'r cam nesaf o ymateb i'r feirws, mae'n bwysig bod yn glir am yr heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Mae'r heriau hyn yr un fath â'r rhai sy'n wynebu gweddill y Deyrnas Unedig ac sydd wedi'u nodi'n glir yn nogfen Llywodraeth y DU, 'Our Plan to Rebuild: The UK Government's COVID-19 Recovery Strategy'. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Ni allwn wneud newidiadau sylweddol yn y tymor byr iawn. Petaem yn gwneud gormod yn rhy sydyn, er enghraifft drwy adael i bawb ddychwelyd i'r gwaith, neu lacio'r holl fesurau cadw pellter cymdeithasol, byddem yn gweld y feirws yn ailgodi ei ben gan greu ton a allai fod yn fwy na'r un gyntaf.
- Nid oes ateb hawdd. Hyd nes y ceir brechlyn neu driniaethau effeithiol, bydd raid inni fyw gyda COVID-19 a sicrhau bod gennym fesurau i gyfyngu, hyd y bo modd, ar y nifer sy'n cael eu heintio a nifer y marwolaethau, ond gan ganiatáu i'n cymdeithas a'n heconomi weithredu.
- Rhaid inni leihau nifer yr achosion newydd drwy gadw'r gyfradd drosglwyddo (R) yn is nag 1. Os na wnawn ni hynny, mae'n debygol y byddwn yn colli'r gallu i reoli lledaeniad y clefyd.
- Sefydlu system effeithiol i dracio, olrhain a diogelu. Bydd hynny'n hanfodol os ydym am gymryd unrhyw un o'r camau rydym yn eu hystyried. Mae angen inni allu canfod ac ynysu achosion newydd a rhoi gwybod i'r bobl a allai fod wedi'u heintio y dylent aros gartref nes byddant wedi cael prawf.
- Rhaid inni barhau i ddysgu am y clefyd a deall sut mae'n cael ei ledaenu. Yn benodol, mae angen inni ddeall pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf, faint o bobl sy'n cael eu heintio heb ddangos symptomau, pryd mae'r risg fwyaf i berson heintus drosglwyddo'r clefyd, a 'beth sy'n gweithio' o ran mesurau gwarchod penodol a mesurau penodol i atal achosion newydd rhag lledaenu ymhellach.

- Mae unrhyw gamau a gymerwn yn dibynnu ar gydymffurfio eang a pharhaus. Hyd yma, mae pobl Cymru wedi bod yn hynod ddisgybledig. Fodd bynnag, er mwyn atal R rhag codi'n uwch nag 1, a chynnydd direol yn yr epidemig, mae angen i bobl barhau i ddilyn ein canllawiau – ac yn enwedig bod yn barod i hunanynysu os ydynt yn mynd yn sâl neu os gallent fod wedi'u heintio. Dyna pam yr ydym ni fel Llywodraeth yn credu bod tryloywder yn hanfodol, fel bod pobl yn deall y dystiolaeth wyddonol sy'n sail i'n penderfyniadau. Byddwn yn parhau i gyhoeddi'n wythnosol y cyngor a dderbyniwn gan ein Cell Cyngor Technegol.
- Bydd y sefyllfa'n mynd yn anoddach wrth i'r hydref a'r gaeaf agosáu, a ninnau'n paratoi ar gyfer tymor fflw'r gaeaf. Bydd hynny'n ei gwneud yn anoddach adnabod achosion o COVID-19 (oherwydd y bydd cynifer o bobl heb COVID-19 yn debygol o fod â symptomau sy'n debyg iddo), a bydd y galw am welyau mewn ysbytai yn cynyddu.

Mae hyn oll yn tanlinellu pam mai dim ond gyda gofal y gallwn symud ymlaen.

Gan fod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn wynebu'r un heriau, rydym ni, fel Llywodraeth, wastad wedi bod yn gryf o blaid gweithredu fel pedair gwlad wrth fynd ati i godi'r cyfyngiadau.

Ond rhaid parchu hefyd y cyfrifoldeb sydd ar bob Llywodraeth i benderfynu pa mor gyflym y mae'n ddiogel gwneud newidiadau, a'r cydbwysedd y mae angen ei daro rhwng gwahanol ffyrdd o lacio – beth yw'r flaenoriaeth o ran caniatáu i bobl gwrdd â'u perthnasau agos, mynd i siopa neu i gael trin eu gwallt, dychwelyd i'r gwaith neu fynd am dro i lan y môr. Cyfyng yw'r posibiliadau o ran llacio'r cyfyngiadau presennol, felly mae angen gwneud dewisiadau. Rydyn ni am wneud y dewisiadau hynny drwy ymgynghori â'n rhanddeiliaid a phobl Cymru.

Dyna pam rydyn ni'n cyhoeddi'r ddogfen hon - nid fel y gair olaf, ond fel rhan o sgwrs sy'n parhau.



A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford AS". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

1 Cyflwyniad



Ar 11 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei dull ar gyfer dechrau llacio'r cyfyngiadau COVID-19 presennol yn Lloegr.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd fel pedair llywodraeth y DU i sicrhau bod ein dull yn parhau'n gyson a chydlynus.

Rydym yn cydnabod, ar ôl bron i wyth wythnos o gyfyngiadau, fod pobl Cymru am gael gwybod llawer mwy am yr hyn fydd yn digwydd nesaf. Heb unrhyw synnwyr beth yn union ddaw yn y dyfodol, bydd yn llawer anoddach i gynnal y ffordd hynod ddisgybledig y mae pobl yng Nghymru wedi ymateb i'r argyfwng.

Fel yr eglurwyd dros y diwrnodau diwethaf, byddai'n well gan Lywodraeth Cymru fynd ar drywydd dull a lywodraethir gan yr hyn yr ydym yn gwybod sy'n digwydd gyda'r feirws, yma yng Nghymru. Nid cyfeirio'n unig at y ffordd yr ydym yn cymhwyso'r cyfyngiadau cyfreithiol, sy'n parhau'n gyson yn gyffredinol ar draws y DU gyfan, yr ydym ni, ond at y negeseuon a anfonwn.

Roedd y brig o ran nifer yr achosion o'r haint yn is na'r hyn yr oeddem wedi ei ddisgwyl i ddechrau, a chyrhaeddodd yn gynt na'r disgwyl hefyd, gan olygu bod ein GIG wedi ymdopi'n llwyddiannus felly. Ymateb pobl Cymru i'r neges i aros gartref er mwyn achub bywydau a diogelu'r GIG, yn hytrach na'r cyfyngiadau deddfwriaethol, oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.

Rydym yn awr o'r farn, fodd bynnag, fod risg gynyddol y gallai newid ymddygiadau hyd yn oed o fewn yr un fframwaith cyfreithiol, arwain at gynydd cyflym, afreolus o bosibl yn lledaeniad y clefyd.

Byddai'n drasiedi pe byddem, ar ôl inni ymroi ac aberthu cymaint i achub bywydau, yn darganfod bod yr un bywydau yn cael eu colli beth bynnag, dim ond bod hynny'n digwydd dros gyfnod hwy o amser.

I osgoi hyn, mae angen inni symud yn gyflym, yn gyson â'n capasiti, i ddod o hyd i achosion newydd o'r clefyd a rhoi terfyn arnynt – i brofi, olrhain a diogelu'r rheini sy'n mynd yn sâl neu sydd â'r feirws ond nad ydynt yn dangos symptomau a sicrhau eu bod yn hunanyysu i ddiogelu rhag trosglwyddiadau pellach o'r feirws.

Rydym yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod systemau cadarn yn eu lle erbyn diwedd y mis, ar adeg cynnal yr adolygiad ffurfiol nesaf o'n rheoliadau. Ond ni allwn bennu amserlen ar gyfer y camau nesaf o ddileu'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith gennym hyd nes inni gael sicrwydd.

Mae hefyd angen inni ddefnyddio'r wythnosau nesaf i addasu ein gweithleoedd, ein manau cyhoeddus a manau eraill lle'r ydym yn dod i gysylltiad â'n gilydd er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol fel sy'n angenrheidiol.

Felly, yn y ddogfen hon, a ystyriwn yn rhan o ddull y pedair gwlad, rydym:

- 1 Yn egluro lle'r ydym ni erbyn hyn o ran paratoi i godi'r cyfyngiadau.**
- 2 Yn nodi sut y byddwn yn adolygu unrhyw newidiadau y byddwn yn dymuno eu gwneud i'r cyfyngiadau.**
- 3 Yn rhoi cyflwyniad bras i'n dull 'goleuadau traffig' ar gyfer codi'r cyfyngiadau.**
- 4 Yn egluro sut yr ydym yn bwriadu datblygu canllawiau pellach.**

2 Symud allan o'r cyfyngiadau: Y man cychwyn

Bydd y coronafeirws yn parhau'n risg ddifrifol inni hyd nes y bydd brechlyn neu driniaethau effeithiol i'w cael. Felly, wrth inni ddechrau dod allan o'r mesurau rheoli haearnidd ond effeithiol a roddwyd ar waith gennym yn wreiddiol, rydym yn glir mai proses o reoli risg yw hon, yn hytrach na dileu'r risg honno'n gyfan gwbl.

Er cymaint ein bod yn dymuno gwneud hynny, ni fydd yn bosibl inni ddychwelyd i fywyd 'arferol' am fisoedd lawer – a blynyddoedd o bosibl – i ddod.

Mae'r ymdrech aruthrol yr ydym wedi ei gwneud hyd yma wedi llwyddo i leihau'r gyfradd y mae'r feirws wedi bod yn lledaenu drwy ein cymunedau yn unol â hi ac mae'n glir, am y tro o leiaf, ein bod ni eisoes wedi gweld dod drwy frig yr achosion. Mae lefel yr achosion o heintio newydd, derbyniadau newydd i'r ysbyty a chleifion mewn Unedau Gofal Dwys wedi sefydlogi ac maent yn dechrau gostwng.

Mae'r gyfradd atgynhyrchu yn gwbl hanfodol ar gyfer deall hyn

Mae'r dystiolaeth epidemolegol yn seiliedig ar y rhif atgynhyrchu sylfaenol R sero (R_0) ar gyfer y feirws. Heb unrhyw fesurau rheoli ar waith, disgwylir i nifer yr achosion o heintio yn deillio o un achos o'r feirws, COVID-19, fod oddeutu tri. Mae'r holl fesurau rheoli, fel cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau yn y gweithle, a'r newidiadau yn ymddygiadau unigolion wedi golygu bod yr R yng Nghymru wedi gostwng islaw un. Felly mae nifer yr achosion o heintio yn gostwng. Mae gwerth R yn newid dros amser a chyfeirir ato felly fel R_t (t = amser). Gallwn gyfrifo R_t drwy fesur gwahanol bethau fel derbyniadau i'r ysbyty neu achosion a gadarnhawyd a pho fwyaf dibynadwy y bydd y pethau y gallwn eu mesur, y mwyaf manwl gywir bydd ein dealltwriaeth o'r R . Mae'r R hefyd yn wahanol mewn gwahanol leoedd, er enghraifft gall yr R fod yn uwch mewn rhai lleoliadau caeedig, o gymharu ag yn y gymuned, neu'n is, fel yn y Canolbarth o gymharu â'r De. Hyd yn oed gyda'r gwahaniaethau hyn mae'r R yn ffordd ddefnyddiol inni allu disgrifio'r sefyllfa bresennol o ran COVID-19 yng Nghymru.

Credir bod y gyfradd R ar draws Cymru gyfan ar hyn o bryd rhwng 0.7 a 0.9.

Bydd unrhyw beth a wnawn i lacio'r cyfyngiadau ffurfiol, neu i newid ein hymddygiadau drwy gynyddu ein cyswllt ag eraill yn codi'r gyfradd R. Gall cynnydd bach yn y gyfradd arwain at newidiadau mawr iawn yn nifer yr achosion o heintio newydd a nifer y marwolaethau newydd. Felly ar unrhyw adeg, oni bai bod y gyfradd R yn gostwng ymhellach, ychydig iawn o gyfle fydd gennym i wneud newidiadau: bydd angen inni wneud dewisiadau.

Bydd unrhyw newidiadau y byddwn yn eu gwneud hefyd yn dibynnu ar weld rhai ymddygiadau penodol yn dod yn rhai arferol. Bydd angen parhau i gadw pellter corfforol a sicrhau gwell arferion hylendid yn y dyfodol agos i leihau'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â'r haint.

I gydnabod hyn, rydym eisoes wedi sefydlu rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud 'addasiadau rhesymol' yn y gweithle i sicrhau y cedwir o leiaf dau fetr rhwng unigolion lle bynnag y bo modd. Rydym wedi rhyddhau canllawiau i gefnogi hyn.

Gan adeiladu ar hyn, rydym hefyd eisoes ynghlwm â'r broses o ddatblygu protocolau neu ganllawiau ychwanegol, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cyflogwyr ac undebau llafur, y trydydd sector a'r gymdeithas ddinesig. Mae disgrifiad o'r gwaith sydd ar y gweill wedi'i nodi ym Mhennod 5.

Byddwn yn mynd ymlaen â'r gwaith hwn â'n holl egni ac yn annog ein holl bartneriaid i wneud yr un fath. Drwy wneud cymaint â phosibl o baratoadau gyda'n gilydd yn awr, y cyflymaf y gallwn symud i roi'r mesurau priodol ar waith pan fydd yr amser yn iawn, a hynny yn gynaliadwy.

Ond hyd yn oed gyda'r dulliau lliniaru mwyaf effeithiol ar waith, rydym yn gwybod nad yw'r feirws wedi ei ddifodi, ac na fydd yn cael ei ddifodi. Yr hyn sy'n hanfodol i osgoi ail frig o achosion, a all fod yn fwy na'r brig cyntaf, yw sefydlu'r seilwaith i reoli achosion o'r afiechyd yn y dyfodol.

Rydym wedi nodi ein cynigion ar gyfer gwneud hyn yn ein Strategaeth 'Profi, Orlhain, Diogelu' (<https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu>) a gyhoeddwyd ar 13 Mai.

Bydd rhaid inni hefyd barhau i ddiogelu'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed yn sgil yr afiechyd – y 121,000 o unigolion sy'n cymryd camau 'gwarchod' oherwydd cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes.

Byddwn yn amlinellu ein camau nesaf ar gyfer y grŵp hwn ymhell cyn canol mis Mehefin, sef y dyddiad a bennwyd ar hyn o bryd ar gyfer dirwyn y cyngor iddynt aros gartref, a roddwyd gan ein Prif Swyddog Meddygol, i ben.

3 Sut y byddwn yn gwerthuso camau i lacio'r cyfyngiadau



Mae diben penodol i'r cyfyngiadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd wrth gwrs, sef diogelu ein hiechyd a rheoli lledaeniad y coronafeirws. Mae'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i gwneud yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol parhau i adolygu'r cyfyngiadau hyn i sicrhau eu bod yn gymesur â'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni drwyddynt.

Pan nad ydynt yn gymesur mwyach, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol inni eu diwygio neu eu tynnu'n ôl.

Mae hyn yn sylfaenol i'n cynlluniau i symud allan o'r cyfyngiadau presennol – bydd ein camau wedi'u seilio'n gadarn ar ein dealltwriaeth o risgiau'r feirws i iechyd pobl.

Ni fyddwn yn llacio nac yn diwygio'r cyfyngiadau yr ydym wedi'u gosod oni bai ein bod yn fodlon na fydd unrhyw newid yn bygwth iechyd y cyhoedd, ac ni fyddwn yn cadw unrhyw gyfyngiad pan nad oes rheswm dros wneud hynny ar gyfer iechyd y cyhoedd.

Rydym yn ymwybodol iawn, fel y bydd pobl ar hyd a lled y wlad, fod yna hefyd risgiau i'n hiechyd a'n lles yn sgil y trefniadau presennol. Byddwn yn ystyried y rhain pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha gyfyngiadau i'w llacio neu eu diwygio.

Cyn inni wneud unrhyw beth, byddwn yn;

- **Asesu effaith bosibl ein penderfyniadau ar reoli'r feirws**
- **Asesu pa fesurau y gallwn eu rhoi yn eu lle i leihau effaith ein penderfyniadau ar reoli'r feirws**
- **Asesu effaith ein penderfyniadau ar iechyd y cyhoedd**

Dim ond ar ôl ystyried yr uchod i gyd y byddwn yn asesu unrhyw effeithiau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol y gallai ein penderfyniadau eu cael.

Wrth wneud y penderfyniadau hyn, byddwn yn cael ein harwain nid yn unig gan arbenigedd Prif Swyddog Meddygol Cymru, y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar gyfer Argyfyngau (SAGE) a'n Cell Cyngori Technegol, ond hefyd gan brofiad rhyngwladol. Gan fod llawer o'n cymdogion Ewropeaidd a gwledydd OECD eraill ar drywydd tebyg ond rai wythnosau o'n blaenau, bydd modd inni elwa'n fwy o'r hyn a ddysgir o ran pa fesurau sy'n ymddangos yn llai mentrus a pha rai sydd o bosibl yn arwain at ganlyniadau anfwriadol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo'n llwyr i sicrhau Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd ac rydym yn ymwybodol drwy'r amser o'r ffordd y mae'r feirws wedi taro rhai grwpiau a chymunedau yn galetach a'r cyfyngiadau yr ydym wedi'u gosod i'w reoli. Wrth inni weithio ein ffordd drwy'r heriau i ddod, byddwn yn sicrhau nad oes neb yng Nghymru yn cael ei adael ar ôl.

Dim ond os bydd pawb yn cyd-dynnu y byddwn yn llwyddo i reoli'r feirws hwn. Bydd angen inni gynllunio ein dyfodol mewn ymdrech ar y cyd, gan gydnabod y cyfraniad y gall pob un ohonom ei wneud. Mae gennym eisoes fodel gweithio sy'n dod â chyflogwyr, awdurdodau lleol ac undebau llafur at ei gilydd i ganfod atebion cyffredin i'r heriau sy'n ein hwynebu yn y gweithle a'r economi ehangach. Bydd y bartneriaeth gymdeithasol hon yn hanfodol wrth inni symud ymlaen; gan fanteisio ar gryfder holl bobl Cymru a'u cynrychiolwyr. Mae'r sector gwirfoddol wedi ymateb yn rhagorol i'r heriau enfawr dros y misoedd diwethaf ac mae'n bartner hanfodol wrth inni wynebu ein dyfodol. Mae llawer o ansicrwydd o'n blaenau o hyd ond rydym yn ffyddiog bod gennym yr ewyllys a'r penderfyniad cyfunol i wynebu'r dyfodol yn hyderus.

4 Symud allan o'r cyfyngiadau: Canllaw goleuadau traffig



Yn yr adran hon, rydym wedi llunio canllaw 'goleuadau traffig' i gyfleu ein syniadau ar gyfer llacio'r cyfyngiadau presennol.

Caiff COVID-19 ei ledaenu drwy gyswllt cymdeithasol ac effeithiau cwrdd â phobl eraill.

Pan fydd dau berson o gartrefi gwahanol yn cwrdd ac mae'r ddau fel arall yn byw ac yn gweithio ar eu pen eu hunain, yna mae'r risg yn isel. Wrth i nifer y cysylltiadau gynyddu, mae'r risgiau o greu cadwyni trosglwyddo ac achosion yn cynyddu hefyd. Heb frechlyn, bydd y posibilrwydd o basio'r feirws o gartref i gartref neu leoliad i leoliad yn bodoli.

Wrth inni lacio'r cyfyngiadau, bydd angen inni 'ddogni' faint o gyswllt cymdeithasol yr ydym ni i gyd yn ei gael, ac mae hefyd angen inni gydnabod y bydd cadw pellter cymdeithasol ar ei anoddaf gyda'r bobl hynny yr ydym agosaf atynt yn emosiynol – ein rhieni, plant, wyrion a ffrindiau.

Mae pob cam yn y tabl isod yn dibynnu ar wneud y penderfyniadau cywir – fel unigolion ac fel cymdeithas – ynglŷn ag â phwy yr ydym yn cwrdd a sut. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi llunio canllawiau ar weithleoedd. Byddwn hefyd yn llunio canllawiau ar bethau y bydd angen i bobl eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gweld pobl eraill; gan gynnwys sut i ddiogelu teulu, ffrindiau a'r gymuned rhag dal coronafeirws a niwed arall. Bydd angen i'r canllawiau hyn fod yn eu lle cyn y gallwn symud ymlaen i lawer o'r camau a awgrymir yn y tabl hwn.

Mae'r labeli 'coch', 'oren' a 'gwyrdd' yn amlinellu camau bras sy'n dangos sut y gallwn ddechrau llacio'r cyfyngiadau. Ni fwriedir iddynt gynnwys popeth ac mae'r manylion penodol yn cael eu datblygu gyda busnesau, undebau llafur, awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac eraill.

Ni fyddwn yn symud popeth ar yr un pryd o'r naill gam i'r llall. Mae'r newidiadau diweddar wedi dechrau ein symud i'r cam 'coch' (mae'r mesurau presennol wedi'u nodi mewn print **trwm** isod), ond rydym yn symud yn ofalus ac yn araf. Mae gwneud mwy yn y cam Coch, neu symud y tu hwnt iddo, yn dibynnu ar barhau i lwyddo i gyfyngu ar ledaeniad y feirws yn ogystal â datblygu canllawiau pellach. Yn benodol, mae angen inni fod â'r gallu i olrhain cysylltiadau yn effeithiol fel y gallwn fod yn hyderus wrth symud rhwng y camau. Ni fydd modd inni symud y tu hwnt i'r cam 'gwyrdd' hyd nes y bydd brechlyn neu driniaeth effeithiol ar gael.

Mae'n bosibl y gallem symud yn gynt mewn rhai meysydd nag eraill wrth i'r dystiolaeth newid ac wrth inni ddeall mwy am y risgiau a sut y gellir eu rheoli mewn gwahanol leoliadau. Yn yr un modd, efallai y bydd angen inni gymryd cam yn ôl mewn rhai meysydd pe bai amodau'n gwaethygu. Rydym wedi sefydlu cyfres o wiriadau a fydd yn arwain at ailosod mesurau os bydd twf COVID-19 yn mynd yn annerbyniol ac na ellid ei reoli gan bethau fel 'profi, olrhain a diogelu'.

Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r camau sydd wedi'u hamlinellu yng ngweddill y DU. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd rhwng y pedair gwlad ble bynnag y bo modd, a bydd y Lefelau Rhybudd sy'n cael eu datblygu gan y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch yn ein harwain wrth symud rhwng y camau hyn. Bydd y Lefelau Rhybudd yn helpu i benderfynu sut y byddwn yn symud rhwng y camau isod a pha mor gyflym. Pe bai yna Lefelau Rhybudd uwch, mae'n bosibl y bydd rhaid inni ailosod cyfyngiadau neu fynd hyd yn oed ymhellach.

Mae'r disgrifiadau mewn print **trwm** yn dangos y mesurau presennol yng Nghymru (ar 15 Mai)

Addysg a gofal plant*

Cyfyngiadau caeth

Ar gau ac eithrio i weithwyr allweddol a phlant agored i niwed. Gwasanaethau allgymorth yn eu lle.

Coch

Dim newid, ond yn gallu ymdopi â chynnydd yn y galw yn sgil plant sydd eisoes yn gymwys i fynychu ysgolion a gofal plant.

Oren

Grwpiau o ddisgyblion â blaenoriaeth i ddychwelyd i'r ysgol yn raddol. Mwy o blant mewn gofal plant.

Gwyrdd

Pob plentyn a myfyriwr yn gallu cael at gyfleusterau addysg. Pob plentyn yn gallu cael at ofal plant.

** (Ysgolion, Colegau, sefydliadau Addysg Uwch/Bellach, darparwyr Gofal Plant, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arbennig ac addysg heblaw yn yr ysgol)*

Gweld teulu a ffrindiau

Cyfyngiadau caeth

Aros gartref a dod i gysylltiad ag aelodau'r cartref yn unig (gydag eithriadau cyfyngedig).

Coch

Gweld un person o'r tu allan i'ch cartref er mwyn darparu neu dderbyn cymorth gan gadw pellter cymdeithasol priodol.

Oren

Ymarfer corff gydag un person arall neu mewn grŵp bach gan gadw pellter cymdeithasol priodol.

Gwyrdd

Cwrdd ag un person arall neu grŵp bach i gymdeithasu gan gadw pellter cymdeithasol priodol.

Teithio yma ac acw

Cyfyngiadau caeth

Gadael y tŷ ar gyfer teithiau hanfodol yn unig.

Coch

Teithiau lleol, gan gynnwys ar gyfer manwerthu clicio-a-chasglu. Hyrwyddo teithio llesol ac addasu trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer cadw pellter corfforol. Caniatáu hamdden awyr agored.

Oren

Teithio at ddibenion hamdden, i ddefnyddio gwasanaethau a manwerthu nad ydynt yn hanfodol, a mwy o bobl yn teithio i'r gwaith.

Gwyrdd

Teithio digyfyngiad yn amodol ar gamau diogelu parhaus.

Ymarfer corff, chwaraeon a gemau

Cyfyngiadau caeth

Ymarfer corff unwaith y dydd y tu allan i'ch tŷ ar eich pen eich hun neu gydag aelodau eraill o'ch cartref.

Coch

Ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd a gweithgareddau eraill yr un pryd yn lleol. Agor meysydd chwaraeon awyr agored. Athletwyr elït yn ailddechrau rhai gweithgareddau.

Oren

Chwaraeon timau ac unigol, chwaraeon a gemau digyffwrdd mewn grwpiau bach y tu mewn ac yn yr awyr agored. Rhai digwyddiadau awyr agored gyda chyfyngiad ar nifer y bobl, a digwyddiadau y tu ôl i ddrysau caeedig i'w darlledu.

Gwyrdd

Agor pob gweithgaredd chwaraeon, hamdden a diwylliannol gan gadw pellter corfforol. Ailddechrau cynnal pob digwyddiad gyda chyfyngiad ar nifer y bobl.

Ymlacio ac achlysuron arbennig

Cyfyngiadau caeth

Aros gartref a pheidio â gadael y tŷ oni bai am ddiben hanfodol.

Coch

Agor rhai safleoedd diwylliannol awyr agored a rhai safleoedd awyr agored eraill. Ymlacio a hamdden awyr agored yn lleol.

Oren

Ailagor mwy o safleoedd diwylliannol a hamdden (ee amgueddfeydd ac orielau). Priodasau a digwyddiadau eraill gyda chyfyngiad ar nifer y bobl gan gadw pellter corfforol.

Gwyrdd

Caniatáu pob achlysur arbennig a gweithgareddau diwylliannol a hamdden, gyda chamau diogelu.

Gweithio neu gynnal busnes

Cyfyngiadau caeth

Gweithio gartref os yw'n bosibl. Rhestr o fusnesau sy'n gorfod cau. Rhaid cadw 2m ar wahân mewn gweithleoedd pan nad yw'n bosibl gweithio gartref.

Coch

Mwy o waith yn yr awyr agored a manwerthu clicio-a-chasglu. Ailagor busnesau nad ydynt yn gorfod cau (ee adeiladu) o dan arferion gweithio diogel.

Oren

Ailagor manau manwerthu nad ydynt yn hanfodol gan gadw pellter corfforol. Treialu rhai gwasanaethau personol drwy apwyntiad (ee siopau trin gwallt) Agor busnesau llety heb gyfleusterau a rennir.

Gwyrdd

Bwytai, tafarndai a diwydiannau cyswllt â chwsmeriaid gan gadw pellter corfforol. Agor pob busnes a gweithle o dan brotocolau newydd.

Siopa

Cyfyngiadau
caeth

Manwerthu hanfodol yn unig wyneb yn wyneb.

Coch

Cynnwys clicio-a-chasglu ar gyfer manwerthu nad yw'n hanfodol. Dechrau addasu manau cyhoeddus (ee canol trefi).

Oren

Yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o fannau manwerthu nad ydynt yn hanfodol pan fo addasiadau'n bosibl i gadw pellter corfforol. Addasu canol trefi a'r stryd fawr i hwyluso siopa a defnyddio gwasanaethau gan gadw pellter corfforol.

Gwyrdd

Yn gallu defnyddio pob cyfleuster manwerthu a hamdden gan gymryd camau diogelu rhesymol.

Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus

Cyfyngiadau
caeth

Mynediad at wasanaethau brys neu hanfodol yn unig.

Coch

Cynyddu argaeledd gwasanaethau cyhoeddus yn raddol (ee gwastraff ac ailgylchu, llyfrgelloedd). Cynyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol.

Oren

Parhau i gynyddu'r gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael. Cynyddu mynediad at wasanaethau iechyd a gofal nad ydynt yn hanfodol (ee llawdriniaeth a drefnwyd ymlaen llaw, deintyddiaeth).

Gwyrdd

Mynediad at bob gwasanaeth cyhoeddus, iechyd a gofal cymdeithasol arferol gan gadw pellter corfforol pan fo'n bosibl neu gamau diogelu mewn lleoliadau eraill.

Ymarfer ffydd

Cyfyngiadau
caeth

Cau manau addoli, ac eithrio ar gyfer angladdau ac amlosgiadau.

Coch

Agor manau addoli ar gyfer gweddio preifat gan gadw pellter corfforol.

Oren

Cyfyngu ar wasanaethau a maint cynullïadau gyda'r gallu i gadw pellter corfforol.

Gwyrdd

Agor pob man addoli ar gyfer eu holl wasanaethau, ynghyd â chadw pellter corfforol.

5 Canllawiau pellach

Rydym am sicrhau bod pawb yn deall beth y gofynnir inni i gyd ei wneud wrth inni ystyried llacio rhai o'r cyfyngiadau y bu'n rhaid inni eu gosod i reoli'r coronafeirws.

Cyfrifoldeb llywodraeth, yn ein barn ni, yw rhoi canllawiau i bobl ynglŷn â sut i gymryd y camau nesaf ar y ffordd tuag at lacio'r cyfyngiadau.

Rydym am osgoi'r dryswch a all godi heb ganllawiau clir. Serch hynny, rydym yn cydnabod nad oes dwy ysgol, busnes na chymuned yr un fath, fel sy'n wir am bobl. Bydd y canllawiau a roddwn wedi'u seilio ar y dull o ddiogelu iechyd y cyhoedd yr ydym wedi'i amlinellu eisoes yn y ddogfen hon ond ni fyddant yn cynnig un ateb i bob sefyllfa.

Dyna pam rydym yn bwriadu ymgynghori'n eang ar y canllawiau yr ydym am eu darparu cyn inni ofyn ichi eu mabwysiadu a'u dilyn.

Ein nod yw dechrau deialog agored ac onest gyda'n partneriaid; cyflogwyr a diwydiant; darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal, llywodraeth leol, y gymdeithas sifig a'r cyhoedd. Mae gwneud hynny'n cydnabod pa mor bwysig yw hi i bob un ohonom gydweithio i symud ymlaen o'r sefyllfa bresennol mewn modd diogel a phwrpasol.

Dros y 10 diwrnod nesaf byddwn yn siarad ag ystod mor eang o'n partneriaid ag y gallwn er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o beth sydd angen ei wneud i baratoi at leihau'r cyfyngiadau yn raddol.

I ddechrau, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau ynglŷn â'r canlynol;

- **Y gweithle**
- **Trafnidiaeth gyhoeddus**
- **Ysgolion, gofal plant, addysg bellach a gwasanaethau cyhoeddus eraill**
- **Addysg uwch**
- **Diwylliant a thwristiaeth**
- **Chwaraeon a hamdden**
- **Tai ac adeiladu**

Ymhen amser, byddwn yn ystyried cyhoeddi canllawiau pellach ynglŷn â;

- **Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**
- **Amaethyddiaeth a choedwigaeth**


O ran beth y gallwn ni i gyd ei wneud fel unigolion, gall pob un ohonom barhau i gefnogi'r ymdrech genedlaethol drwy;

- **Barhau i gadw pellter cymdeithasol a pharhau i dorri cadwyni trosglwyddo rhwng cartrefi a lleoliadau.**
- **Parhau i olchi dwylo a chynnal glanweithdra, gwella ein lles a'n hiechyd personol ein hunain drwy siarad mwy, ymarfer corff a bwyta'n iach.**
- **Cydweithredu fel cymunedau a theuluoedd, gan gefnogi ein gilydd pan allwn ni.**
- **Hunanyngysu pan fyddwch yn sâl, gan nodi'r bobl yr ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw yn ddiweddar, a rhoi gwybod iddyn nhw.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ein cymdeithas. Rydym yn gwybod mai'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas sydd wedi'u taro galetaf gan y feirws. Mae pobl sydd ar incwm isel, pobl sydd wedi colli eu swydd, pobl ddigartref, er enghraifft, wedi wynebu heriau ychwanegol yn sgil y feirws. Mae yna dystiolaeth gynyddol hefyd fod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ac mae'r Prif Weinidog wedi ffurfio Grŵp Cynghori BAME i ymchwilio i hyn.

Yn y Fframwaith ar gyfer Adferiad (24 Ebrill), gwnaethom hi'n glir bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn brawf allweddol yn ein cynlluniau ar gyfer ailddechrau ac adfer, a byddwn yn asesu effaith y cynigion wrth wneud penderfyniadau. Bydd ein gwaith yn cael ei arwain gan ddata sy'n ein helpu i ddeall anghydraddoldebau, ond byddwn hefyd yn gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid a Fforymau Cydraddoldeb.

Amcangyfrif o nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cleifion COVID bob dydd yng Nghymru yn seiliedig ar wahanol sefyllfaoedd Rt, hyd at 7 Awst



Galw a chapasiti mewn ysbytai: Yn gostwng ond gallai gynyddu os caiff y cyfyngiadau eu codi.

Ffynhonnell : Y Gell Cyngor Technegol (TAC), Llywodraeth Cymru Dyddiad: 08 Mai 2020

Os byddwn yn codi'r mesurau yn rhy gyflym, bydd y gyfradd R yn cynyddu.

Sefyllfa o ran yr Rt	Cyfanswm cronus ar gyfer y cyfnod o 8 Mai i 7 Awst		
	Achosion a gadarnhawyd	Derbyniadau i'r Ysbyty	Marwolaethau
0.8	5,100	2,800	800
0.9	9,300	5,000	1,400
1.0	19,600	10,600	2,900
1.1	47,600	25,700	7,200

Gallai cynnydd o dim ond 0.1 olygu bod miloedd yn fwy o unigolion yn cael eu derbyn i'r ysbyty a gallai arwain at lawer o farwolaethau.

6 Casgliad



Yn y ddogfen hon rydym wedi amlinellu ein dull arfaethedig o ddechrau llacio'r cyfyngiadau. Rydym wedi bod yn gwbl glir mai dim ond pan fydd gennym y gallu i ganfod achosion newydd a rhoi terfyn arnynt, a bod yr addasiadau angenrheidiol wedi eu gwneud i'n gweithleoedd a'n manau cyhoeddus, y gwelwn ni newidiadau arwyddocaol.

Mae'n rhaid inni gydnabod bod y penderfyniadau ar lacio gwahanol gyfyngiadau yn gysylltiedig â'i gilydd. Ni fydd pobl nad ydynt yn gallu gweithio gartref yn gallu mynd yn ôl i'r gwaith os nad yw lleoliadau gofal plant neu ysgolion ar agor ar gyfer eu plant. Ni all cwmnïau adeiladu bach weithredu'n effeithiol os yw cyflenwyr adeiladwyr yn aros ar gau. Nid oes llawer o ddiben caniatáu i bobl fynd ar wyliau i'r arfordir os yw safleoedd carafannau a gwersylla, tafarndai a bwytaï ar gau.

Ond ar yr un pryd bydd angen inni ddewis rhwng rhai o'r mesurau llacio yr ydym yn eu hystyried ym Mhennod 4. Mae'n annhebygol y bydd y cyfle sydd gennym i lacio cyfyngiadau ar unrhyw adeg, heb beryglu gweld y gyfradd R yn codi uwchben 1 a chynnydd cyflymach a chyflymach mewn achosion o heintio, yn ein galluogi i symud o 'goch' i 'oren' neu o 'oren' i 'wyrdd' ym mhobman ar yr un pryd.

Fel Llywodraeth, mae'n rhaid i'n dewisiadau ni adlewyrchu ein gwerthoedd, a dyma yw ein bwriad.

Bydd canolbwyntio ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn flaenoriaeth uchel, gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc y mae eu hamgylchiadau teuluol yn golygu mai nhw sy'n cael eu heffeithio yn fwyaf niweidiol o ganlyniad i golli allan ar addysg yn yr ysgol. Mae angen inni gydnabod bod y cyfyngiadau symud wedi bod fwyaf anodd i'r bobl sy'n byw mewn tai cyfyng neu anfoddfaol, pobl sydd â materion iechyd meddwl neu sydd heb geisio triniaeth am salwch nad yw'n ymwneud â COVID-19 oherwydd eu bod ofn, pobl sydd mewn perthynas dreisgar neu'r henoed sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Felly er bod galluogi'r bobl nad ydynt yn gallu gweithio gartref i fynd yn ôl i'r gwaith yn rhan hanfodol o'r hyn y mae'n rhaid inni ei gyflawni dros y misoedd nesaf, ni fyddwn yn esgeuluso llacio'r cyfyngiadau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf ar ansawdd bywyd pob un ohonom – er enghraifft, y cyfle i gwrdd â theulu a ffrindiau.

Nid byd fel yr oedd cyn COVID yw'r byd sydd o'n blaenau ni. Rhaid inni addasu ar gyfer dyfodol sy'n cynnwys y feirws. Wrth wneud hynny, dylem fabwysiadu rhai o ganlyniadau mwy positif ymdopi â'r clefyd: dulliau gweithio neu deithio mwy cynaliadwy, hyblygrwydd ar gyfer defnyddio TG mewn busnesau, gwasanaethau ac ym myd addysg, a mwy o bwyslais ar weithredu gwirfoddol a chymunedol.

Diben y ddogfen hon yw parhau â'r drafodaeth, nid rhoi'r gair olaf. Yn ogystal â'r holl waith y mae partneriaid a rhanddeiliaid eisoes yn ei wneud i ddatblygu protocolau a fydd yn galluogi'r gymdeithas i weithredu mewn modd mwy arferol, rydym yn gwahodd eich barn a'ch sylwadau ar y dull yr ydym wedi'i amlinellu ac, yn benodol, eich barn ar y modd y gallwn flaenoriaethu'r mesurau i lacio'r cyfyngiadau.